Cyfraniad Estyn at Arolygiad Arolygiaeth Carchardai EF o Sefydliad Troseddwyr Ifanc EF y Parc

Ym mis Mawrth 2026, ymwelodd Steve Bell, Mamta Arnott, Baljit Gandhi, Mererid Wyn Williams a Rachel Hackling â **Sefydliad Troseddwyr Ifanc EF y Parc** i arolygu gweithgareddau addysg, medrau a gwaith ar ran Arolygiaeth Carchardai EF. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y testun a'r barnau yn ymwneud â darpariaeth addysg, medrau a gwaith.

Darllenwch adroddiad llawn Arolygiaeth Carchardai EF ar ei gwefan.

Maes Arolygu 1: Safonau

Yn eu gwersi, roedd llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn ac yn datblygu medrau a gwybodaeth bynciol yn dda. At ei gilydd, roedd dysgwyr a oedd wedi'u gwahanu oherwydd bregusrwydd neu resymau eraill yn cael llai o oriau cyswllt addysg ac yn gwneud cynnydd arafach na'u cymheiriaid. Roedd eu presenoldeb yn is ac roeddent yn ymgysylltu llai.

Ar draws y ddarpariaeth, roedd dysgwyr yn ymarfer ac yn datblygu eu llythrennedd yn briodol. Roedd eu sillafu a'u llawysgrifen yn briodol yn unol â'u gallu ac roeddent yn cyfeirio at offer fel geiriaduron, yn ôl yr angen.

Mewn sesiynau a oedd yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau trafod, gwrando ac ymresymu, fel dinasyddiaeth, roedd dysgwyr yn ymgysylltu'n feddylgar, yn gwrando'n briodol ar safbwyntiau pobl eraill ac yn eu mynegi eu barn eu hunain yn dda.

Yn yr un rhaglen â ffocws galwedigaethol sydd ar gael ar hyn o bryd, sef y cwrs mewn cynnal a chadw rheilffyrdd, roedd mwyafrif y dysgwyr yn ymgysylltu'n dda â thasgau ymarferol, yn defnyddio offer ac yn datblygu medrau a gwybodaeth yn berthnasol i'r alwedigaeth.

Yn y rhan fwyaf o ystafelloedd dosbarth, roedd llyfrau darllen yn berthnasol i'r pwnc, fel bywgraffiadau mabolgampwyr, yn bresennol ac roedd lleiafrif o ddysgwyr yn achub ar y cyfle i bori neu fenthyg llyfrau i'w darllen yn ystod y wers neu yn eu hamser eu hunain.

Roedd dysgwyr yn cwblhau eu cymwysterau'n llwyddiannus ar gyfraddau cymaradwy neu ychydig yn well nag mewn sefydliadau troseddwyr ifanc eraill. Roedd dysgwyr yn cwblhau cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru ar lefel briodol o gymharu â'u mannau cychwyn. Roedd dysgwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn llwyddo yn eu cymwysterau ar gyfraddau cymaradwy â dysgwyr gwyn Prydeinig ac roedd dysgwyr ag ADY yn llwyddo ar gyfradd uwch na dysgwyr nad oes ganddynt ADY.

Maes Arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu

Crybwyllodd bron pob un o'r dysgwyr eu bod yn teimlo'n ddiogel mewn addysg ac yn gwybod â phwy i siarad os oedd ganddynt bryderon neu ofidiau. At ei gilydd, roedd presenoldeb dysgwyr yn dda ac roedd lefelau absenoldebau anawdurdodedig yn isel.

Mewn gwersi, roedd perthnasoedd cadarnhaol rhwng dysgwyr a staff. Roedd perthynas waith agos rhwng staff gweithredol ac athrawon, a gyda'i gilydd roeddent yn cynnig cymorth priodol i ddysgwyr reoleiddio eu hemosiynau. Roedd hyn yn cefnogi ymgysylltiad â dysgu yn dda.

Mewn sesiynau addysg yn ystod yr arolygiad hwn, roedd bron pob un o'r dysgwyr yn trin eu cymheiriaid, staff ac ymwelwyr yn barchus. Roeddent yn sgwrsio'n hyderus ac yn briodol. Roedd bron pob un o'r dysgwyr yn gwerthfawrogi'r dull newydd ar gyfer cymell ymddygiad ac yn glir ynghylch sut roedd yn eu cefnogi.

At ei gilydd, roedd dysgwyr yn ymddwyn yn dda yn ystod cyfnodau distrwythur, fel amseroedd egwyl. Roeddent yn mwynhau'r cyfle i ryngweithio'n gymdeithasol â staff a'u cymheiriaid. Yn y sesiynau a arsylwyd, roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyrraedd yn brydlon, gan ddangos awch i ymgysylltu â'u dysgu.

Roedd bron pob un o'r dysgwyr yn ymgysylltu'n dda â'r rhaglen iechyd a lles ac yn ennill cymwysterau perthnasol a oedd yn cefnogi dewisiadau iach a gweithgarwch corfforol. Trwy sesiynau dinasyddiaeth a chyflogadwyedd, roedd dysgwyr yn datblygu medrau a gwybodaeth bwysig i gefnogi eu cyflogadwyedd yn y dyfodol.

Roedd llawer o ddysgwyr yn ymgysylltu'n dda â chynnwys pynciau mewn gwersi, gan fod athrawon yn llwyddo i gysylltu themâu â'u diddordebau. Mewn gwersi, roedd bron pob un o'r dysgwyr yn ymfalchïo yng nghyflwyniad eu gwaith ac yn awyddus i'w drafod pan ofynnwyd iddynt wneud hynny. Roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn hyderus wrth weithio'n annibynnol, yn ogystal ag mewn grwpiau bach, ac roeddent yn gallu llunio ymatebion meddylgar, fel y medrau sydd eu hangen i oroesi ar ynys anghyfannedd.

Maes Arolygu 3: Addysgu a phrofiadau dysgu

Roedd bron pob un o'r athrawon yn meithrin perthnasoedd parchus, cefnogol a phwrpasol â dysgwyr. Roedd hyn yn elfen allweddol mewn ymddygiad da, yn gyffredinol, yn y dosbarth. Roedd athrawon yn gosod disgwyliadau priodol ar gyfer cyflawniad dysgwyr. Roeddent yn fodelau ymddygiad ac iaith da i ddysgwyr.

Roedd y rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio eu sesiynau'n dda ac yn cynnwys amrywiaeth o dasgau, adnoddau a gweithgareddau a oedd yn helpu i gynnal diddordeb a chymhelliant dysgwyr. Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn ystyried dewisiadau ac ymddygiadau dysgwyr. Er enghraifft, yn y dosbarth iechyd a lles, roedd dysgwyr yn cylchdroi rhwng gweithgarwch corfforol, cwblhau aseiniadau a gwaith ysgrifenedig, ac astudio hunangyfeiriedig, fel darllen.

Roedd y rhan fwyaf o athrawon yn rhoi adborth defnyddiol i ddysgwyr, a oedd yn eu helpu i ddeall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Roeddent yn holi'n dda i ddarganfod gwybodaeth, ymgysylltu, cymell a gwahaniaethu. Roedd bron pob un o'r athrawon yn cylchu'r dosbarthiadau yn dda ac yn cynnig cymorth ac adborth un-i-un defnyddiol i ddysgwyr. Roeddent yn defnyddio'r cyfleoedd hyn i wahaniaethu dysgu yn effeithiol.

Roedd y rhan fwyaf o athrawon yn annog dysgwyr i ddarllen er pleser a diddordeb, gyda llyfrau ar gael mewn ystafelloedd dosbarth, ar esgyll preswyl ac yn y llyfrgell.

Yn yr ychydig iawn o achosion lle'r oedd yr addysgu'n llai effeithiol, roedd dysgwyr yn gwneud cynnydd araf. Nid oedd y gwersi hyn yn ddigon heriol, nid oeddent yn rhoi cyfarwyddyd clir i ddysgwyr ynghylch yr hyn yr oedd angen iddynt ei wneud, neu nid oedd gan athrawon yr hyder i reoli ymddygiad ac ymgysylltiad dysgwyr.

Roedd y ddarpariaeth yn cynnig ystod ddefnyddiol o bynciau, a oedd yn helpu i wella medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr ac yn datblygu eu hymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth, cerddoriaeth, celf, astudiaethau busnes, iechyd a lles. Roedd arweinwyr wedi gwella'r arlwy galwedigaethol ers yr arolygiad diwethaf, yn enwedig trwy gyflwyno darpariaeth alwedigaethol cyrsiau byr mewn meysydd fel peirianneg rheilffyrdd neu osod toeau. Roedd dysgwyr yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd hyn. Roedd arweinwyr wedi cynllunio darpariaeth wythnosol i ehangu'r dewisiadau galwedigaethol i gynnwys rhaglenni torri gwallt ac arlwyo, er nad oedd y rhain yn cael eu staffio ar adeg yr arolygiad. O ganlyniad, roedd dysgwyr yn gallu manteisio ar ddarpariaeth alwedigaethol gyfyngedig.

Roedd yr amserlen yn cynnig 25 awr o amser addysg cynlluniedig i ddysgwyr bob wythnos. Roedd yr amserlen wedi'i strwythuro'n dda ac yn caniatáu egwyliau byr rhwng sesiynau, lle gallai dysgwyr gymdeithasu neu ymlacio, ac roedd hyn yn cyfrannu at lefelau canolbwyntio da ymhlith dysgwyr yn y dosbarth, yn gyffredinol. Roedd dysgwyr a oedd wedi'u gwahanu yn cael amserlen lai, ond roeddent yn cael cyswllt dyddiol gwerthfawr ag

athrawon o hyd, ynghyd â'r gallu i fanteisio ar ddeunyddiau dysgu yn eu celloedd.

Roedd darpariaeth werthfawr a oedd yn caniatáu i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg a dysgu mwy am ddiwylliant, hanes a threftadaeth Cymru. Roedd hyn yn nodedig, o ystyried cyd-destun y darparwr, lle'r oedd mwyafrif y dysgwyr yn Saeson ond yn manteisio ar y ddarpariaeth hon o hyd. Roedd tiwtor Cymraeg y carchar yn cyflwyno sesiwn hanner diwrnod bob wythnos, yr oedd pob dysgwr yn ei mynychu ar sail rota misol. Roedd ychydig iawn o athrawon yn ymgorffori'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn eu sesiynau pwnc yn effeithiol iawn. Roedd dysgwyr yn ymarfer ymadroddion Cymraeg sylfaenol ac roedd dysgwyr Cymraeg eu hiaith yn elwa trwy addysgu eu cyd-ddysgwyr.

Maes Arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad

Roedd staff yn meithrin perthnasoedd gwaith hynod effeithiol a chynhyrchiol â dysgwyr, a oedd yn cefnogi amgylchedd dysgu cadarnhaol. Roedd staff wedi sefydlu system rheoli ymddygiad effeithiol, a oedd wedi arwain at ymddygiad cadarnhaol gwell a mwy o ymgysylltiad â dysgu, yn enwedig wrth ddarllen er pleser.

Roedd staff addysg yn defnyddio gwybodaeth o'r broses ymsefydlu gychwynnol yn dda i nodi anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr, lle bo hynny'n bosibl, ynghyd â gwybodaeth gefndir berthnasol arall, fel eu profiadau blaenorol o ddarllen. Roeddent hefyd yn cynnal proses ymsefydlu addysg gynhwysfawr, a oedd yn cynnwys trafodaethau ynghylch dyheadau dysgwyr ac asesiadau cychwynnol o fedrau llythrennedd a rhifedd.

Roedd cynlluniau dysgu a gwaith unigol yn cefnogi ymgysylltiad a chynnydd dysgwyr yn effeithiol. Roedd staff yn adolygu'r cynlluniau hyn yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y strategaethau'n parhau i fod yn berthnasol ac yn cadw ffocws clir ar alluogi dysgwyr i gyflawni cymwysterau yn ystod eu dedfryd.

Roedd arweinwyr wedi datblygu dulliau systematig o gasglu a defnyddio gwybodaeth am ddysgwyr, a oedd yn cefnogi'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Roedd staff yn dangos dealltwriaeth gadarn o sut i ymateb i anghenion emosiynol a lles dysgwyr, er enghraifft trwy ddefnyddio adnoddau cefnogol fel offerynnau ffidlan i'w cynorthwyo i ymgysylltu. Fodd bynnag, nid oedd dealltwriaeth fanylach staff o sut i addasu dulliau addysgu i fodloni anghenion dysgu penodol wedi'i datblygu cystal.

Roedd ymyriadau addysg targedig yn cefnogi dysgwyr i wneud cynnydd mewn meysydd allweddol. Roedd staff yn olrhain cynnydd dysgwyr yn glir drwy'r traciwr cynnydd dysgwyr, a oedd yn rhoi trosolwg o'r cyrsiau a gwblhawyd a'r rhai a oedd yn mynd rhagddynt, ac yn amlygu cyflawniadau dysgwyr yn effeithiol.

Roedd dysgwyr yn cael cyngor ac arweiniad priodol ar eu camau nesaf ar ôl cael eu rhyddhau. Roedd ychydig o enghreifftiau o ddeilliannau cadarnhaol yn gysylltiedig â

darpariaeth alwedigaethol, fel y cwrs gosod toeau, lle'r oedd dysgwyr wedi symud ymlaen i gyflogaeth. Roedd trefniadau addas ar waith hefyd i gefnogi plant i bontio i leoliadau diogel eraill, gan gynnwys carchardai i ddynion sy'n oedolion.

Nid oedd y defnydd o ryddhau ar drwydded dros dro (ROTL) i gefnogi cynnydd dysgwyr a'u paratoi i gael eu rhyddhau wedi'i ddatblygu'n ddigonol, ac ychydig iawn o ddysgwyr oedd yn achub ar y cyfle hwn.

Maes Arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth

Roedd arweinwyr yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc wedi gweithio'n bwrpasol i gryfhau ansawdd darpariaeth a gwella deilliannau i ddysgwyr ers yr arolygiad craidd diwethaf. Roeddent wedi gwneud cynnydd cadarn yn erbyn yr argymhellion blaenorol.

Roedd cydweithio rhwng Novus Gower a G4S wedi gwella ac roedd y berthynas rhwng staff addysg, gweithredol a gofal iechyd yn fwy effeithiol. Roedd y partneriaethau hyn yn cefnogi cynnal y ddarpariaeth yn dda o ddydd i ddydd, er enghraifft trwy gyfarfodydd rheolaidd y bartneriaeth addysg, lle'r oedd arweinwyr yn monitro cynnydd dysgwyr ac yn mynd i'r afael â heriau a oedd yn dod i'r amlwg.

Roedd arweinwyr wedi cryfhau eu trefniadau hunanwerthuso. Roeddent wedi cyflwyno prosesau mwy cadarn, gan gynnwys arsylwadau traws-ddarparwr a defnyddio arbenigedd o Goleg Gŵyr Abertawe a Novus. O ganlyniad, roedd yr adroddiad hunanwerthuso yn addas o hunanfeirniadol ac yn nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn glir.

Roedd y cynllun datblygu ansawdd cysylltiedig yn fanwl ac yn cyd-fynd yn dda â blaenoriaethau a nodwyd. Roedd arweinwyr hefyd yn defnyddio data'n well, gan gynnwys dadansoddiad gwell o gynnydd grwpiau gwahanol o ddysgwyr, fel y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, roedd anawsterau o ran cael gwybodaeth am gyrchfannau dysgwyr ar ôl cael eu rhyddhau yn cyfyngu ar allu arweinwyr i werthuso effaith tymor hwy y ddarpariaeth yn llawn.

Roedd arweinwyr yn ymgysylltu'n ystyrlon â dysgwyr a staff. Roeddent yn defnyddio adborth gan ddysgwyr yn effeithiol i lywio gwelliannau, er enghraifft cynnwys dysgwyr wrth recriwtio staff addysgu newydd.

Roedd arweinwyr hefyd wedi buddsoddi mewn dysgu proffesiynol, gan gynnwys rhaglen ymsefydlu fuddiol ar gyfer staff newydd, a oedd yn manteisio'n effeithiol ar arbenigedd ar draws partneriaid. Roedd ystod o ddysgu proffesiynol i wella addysgu a bodloni anghenion unigol dysgwyr. Roedd y gwelliannau hyn, ochr yn ochr â phrosesau hunanwerthuso a chynllunio cryfach, wedi cyfrannu'n gadarnhaol at ansawdd yr addysgu a deilliannau dysgwyr. Fodd bynnag, nid oedd dysgu proffesiynol i ddatblygu addysgeg i fodloni anghenion dysgu ychwanegol penodol dysgwyr wedi'i ddatblygu cystal.

Yn gyffredinol, teimlai staff eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan arweinwyr a bod cyfleoedd rheolaidd i gyfathrebu, fel cyfarfodydd tîm, sgyrsiau am ADY a sesiynau llais y staff.

Roedd arweinwyr wedi sefydlu gweledigaeth gliriach ar gyfer y cwricwlwm a darpariaeth gyffredinol ac, mewn llawer o achosion, roedd staff yn deall hyn. Roeddent yn defnyddio gwybodaeth ddefnyddiol, gan gynnwys adborth gan ddysgwyr a gwybodaeth am y farchnad lafur, i lywio cynllunio'r cwricwlwm. Fodd bynnag, nid oedd yr holl staff yn deall y cyfeiriad strategol yn gyson.

Yn ogystal, er gwaethaf gwelliannau a datblygiadau cynlluniedig i'r amgylchedd dysgu, nid oedd y cwricwlwm yn canolbwyntio'n ddigonol ar lwybrau galwedigaethol, yn rhannol oherwydd heriau staffio ac oedi wrth fetio. Roedd seilwaith TGCh gwael neu annibynadwy yn cyfyngu ar gyfleoedd athrawon i ddefnyddio adnoddau electronig ac roedd rhai ystafelloedd dosbarth naill ai'n rhy boeth neu'n rhy oer, gyda chyfleoedd cyfyngedig i athrawon reoli'r amgylchedd.

Roedd arweinwyr yn dangos hyblygrwydd priodol yn eu trefniadau i ddarparu ar gyfer yr ystod lawn o anghenion dysgwyr – er enghraifft, gan fanteisio ar arbenigedd a chymorth gan y carchar i ddynion i gefnogi dysgwyr sy'n gweithio tuag at gymwysterau Safon Uwch neu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Roedd arweinwyr wedi cyflwyno mentrau i gefnogi datblygiad ehangach dysgwyr, gan gynnwys strategaeth ddarllen. Datblygwyd hyn ar y cyd â staff gweithredol, llyfrgellydd y carchar a'r darllenydd preswyl. Roedd hyn yn dechrau gwella ymgysylltiad â darllen.

Mae'r farn grynodol y mae Estyn yn ei dyfarnu yn gysylltiedig â fframwaith arolygu Estyn yn cyfrannu at farnau Arolygiaeth Carchardai EF yn erbyn y prawf carchardai iach ar gyfer gweithgarwch pwrpasol.

Disgrifyddion barnau:

Mae deilliannau ar gyfer carcharorion yn dda.
Nid oes tystiolaeth fod deilliannau ar gyfer carcharorion yn cael eu heffeithio'n andwyol mewn unrhyw feysydd arwyddocaol.

Mae deilliannau ar gyfer carcharorion yn weddol dda.
Mae tystiolaeth o ddeilliannau andwyol ar gyfer carcharorion mewn nifer fach o feysydd yn unig. I'r mwyafrif, nid oes pryderon sylweddol. Mae gweithdrefnau i ddiogelu deilliannau ar waith.

Nid yw deilliannau ar gyfer carcharorion yn ddigon da.
Mae tystiolaeth fod deilliannau ar gyfer carcharorion yn cael eu heffeithio'n andwyol mewn llawer o feysydd neu yn enwedig yn y meysydd hynny sydd bwysicaf i les carcharorion. Mae problemau/pryderon, os nad ymdrinnir â nhw, yn debygol o ddod yn feysydd pryder difrifol.

Mae deilliannau ar gyfer carcharorion yn wael.
Mae tystiolaeth fod y deilliannau ar gyfer carcharorion yn cael eu heffeithio'n ddifrifol gan arfer bresennol. Mae methiant i sicrhau hyd yn oed triniaeth ac/neu amodau digonol ar gyfer carcharorion. Mae angen camau adferol ar unwaith.

Barn gyffredinol: y farn gyffredinol ar gyfer yr arolygiad o Sefydliad Troseddwyr Ifanc EF y Parc yw bod deilliannau ar gyfer carcharorion yn **dda.**

Yr hyn y mae angen ei wella:

Pryder 1 Nid oedd yr arlwy galwedigaethol o fewn y cwricwlwm yn ddigon eang

Pryder 2 Nid oedd dysgu proffesiynol yn canolbwyntio'n gyson ar ddatblygu addysgeg athrawon ar gyfer anghenion dysgu penodol dysgwyr

Mae Estyn yn defnyddio'r termau canlynol i ddisgrifio symiau a chyfrannau:

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddysgwyr…'* neu *'ychydig iawn o ddysgwyr…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

bron pob un =	gydag ychydig iawn o eithriadau
y rhan fwyaf =	90% neu fwy
llawer =	70% neu fwy
mwyafrif =	dros 60%
hanner =	50%
tua hanner =	yn agos at 50%
lleiafrif =	islaw 40%
ychydig =	islaw 20%
ychydig iawn =	llai na 10%